Talu credydau treth

Beth yw credydau treth

Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod taliadau credydau treth. Mae yna ddau fath o gredyd treth:

- Mae Credyd Treth Gwaith yn arian ychwanegol a gewch gan y llywodraeth os ydych yn gweithio ac ar incwm isel
- Mae Credyd Treth Plant yn arian ychwanegol a gewch gan y llywodraeth os oes gennych blant. Nid oes rhaid eich bod yn gweithio i gael Credyd Treth Plant.

Mae p'un ai y gallwch gael credydau treth a'u swm yn dibynnu ar eich incwm ac amgylchiadau eich teulu.

Telir credydau treth gan Gyllid a Thollau EM (HMRC).

I bwy y telir credydau treth

Mae hyn yn dibynnu ar ba fath o gredyd treth yr ydych yn ei gael.

Os ydych yn cael Credyd Treth Plant neu elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith, fe'i telir i brif ofalwr eich plentyn.

Telir Credyd Treth Gwaith i'r person sy'n gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy. Os ydych mewn perthynas ac os yw'r ddau ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy, gallwch ddewis pwy sy'n derbyn y Credyd Treth Gwaith.

Am ba hyd y telir credydau treth

Dyfernir credydau treth fel arfer am flwyddyn dreth gyfan. Mae'r flwyddyn dreth yn rhedeg o 6ed Ebrill tan 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol. Os ydych yn hawlio ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth, bydd eich arian yn cael ei dalu o'r dyddiad yr ydych yn hawlio nes diwedd y flwyddyn dreth.

Sut y telir credydau treth

Gallwch ddewis cael credydau treth naill ai'n wythnosol neu bob pedair wythnos. Caiff taliadau eu hôl-ddyddio, hynny yw, ar ddiwedd pob cyfnod talu (naill ai un wythnos neu bedair wythnos).

Fodd bynnag, os oes gennych hawl i lai na £2 yr wythnos, byddwch yn derbyn yr holl arian sy'n ddyledus o fewn cyfnod y dyfarniad pan gaiff y dyfarniad ei wneud.

Telir credydau treth yn syth i mewn i'ch cyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu neu gyfrif Cerdyn Swyddfa Bost. Os nad oes gennych un o'r cyfrifon hyn, cewch eich annog i agor un ar-lein. Os ydych yn cael trafferth agor cyfrif, cysylltwch â llinell gymorth HMRC ar 0345 300 3900 (ffôn testun 0345 300 3909). Mae'n bosib y

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

gallwch agor cyfrif banc sylfaenol.

Os nad oes gennych gyfrif, mae'n bosib y gall HMRC gytuno i'ch talu drwy siec a allwch ei newid yn y Swyddfa Bost. Gall y trefniant hwn fel arfer bara wyth wythnos heblaw bod yna amgylchiadau eithriadol.

Taliadau hwyr

Dylai HMRC ddelio â'ch hawliad am gredydau treth o fewn cyfnod rhesymol o amser. Er mwyn osgoi oedi, dylech lenwi'r ffurflen hawlio cyn gynted â phosib.

Ôl-ddyddio taliadau

Gallwch gael taliadau wedi'u hôl-ddyddio os mae'n debyg y byddech wedi cael credydau treth os oeddech wedi hawlio ynghynt. Yn y mwyafrif o achosion, gallwch gael hyd at un mis wedi'i ôl-ddyddio. Fodd bynnag, os ydych yn derbyn elfen anabledd Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith, mae'n bosib y gallwch gael mwy na thri mis o daliadau wedi'u hôl-ddyddio.

Beth os oes newid yn fy amgylchiadau

Mae swm eich credyd treth fel arfer yn cael ei osod am y flwyddyn. Os yw amgylchiadau eich teulu neu'ch rhai chi yn newid yn ystod y flwyddyn, dylech ddweud wrth HMRC cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n bosib na chewch yr holl arian sy'n ddyledus i chi (**tandaliad**). Neu, mae'n bosib y cewch ormod o arian a bydd gofyn i chi ei dalu yn ôl yn hwyrach (**gordaliad**).

Gall rhai newidiadau i'ch amgylchiadau olygu bod eich taliadau yn stopio a bydd angen i chi eu hawlio eto.

Gall newidiadau eraill olygu bod eich taliadau yn parhau ond bydd eich hawl i gredydau treth yn cael ei gyfrifo eto.

Nid yw rhai newidiadau yn effeithio ar eich credyd treth. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddant yn cael eu hystyried pan fydd HMRC yn cyfrifo eich dyfarniad credyd treth ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

Mae'n bosib y caiff eich hawliad ei gyfrifo eto hyd yn oed os nad yw eich amgylchiadau yn newid. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw HMRC yn meddwl bod hawl gennych i fwy o arian na'r swm a dderbynioch yn wreiddiol.

Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y flwyddyn dreth

Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, hynny yw ar ddiwedd Mawrth, bydd yr HMRC yn edrych ar eich amgylchiadau eto. Byddan nhw yn penderfynu:

- a oes gennych hawl i gredydau treth
- ac os oes, faint y byddwch yn ei gael nawr
- faint dylech fod wedi ei gael yn y flwyddyn dreth flaenorol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Bydd HMRC yn anfon hysbysiad terfynol atoch a fydd yn gofyn i chi roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau. Yn y cyfamser, byddwch yn parhau i gael yr un gyfradd o arian (gelwir hyn yn **daliadau dros dro**).

Ar ôl i HMRC dderbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, bydd eich taliad am y flwyddyn dreth newydd yn cael ei gadarnhau. Byddan nhw hefyd yn cadarnhau faint y dylech fod wedi derbyn yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol. Os nad ydych yn ateb HMRC erbyn y terfyn amser, byddant yn stopio eich credydau treth ac efallai y bydd gofyn i chi ad-dalu unrhyw daliadau dros dro a dderbynioch.

Tandaliadau credyd treth

Os yw HMRC yn penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn dreth nad ydych wedi derbyn swm digonol, mae'n rhaid iddynt eich talu chi yn ôl. Byddwch yn cael eich ad-dalu mewn cyfandaliad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni fyddwch yn derbyn yr holl arian yn ôl. Os na ddywedoch wrth HMRC am y newid yn eich amgylchiadau cyn gynted ag y digwyddodd, byddwch ond yn gallu cael eich arian wedi'i ôl-ddyddio hyd at uchafswm o un mis.

Gordaliadau credyd treth

Os ydych yn derbyn gormod o gredydau treth, bydd HMRC fel arfer yn ceisio eu hadennill. Os wnaethoch chi a'ch partner hawlio ar y cyd am gredydau treth, gallai HMRC geisio adennill yr arian o'r ddau ohonoch. Os ydynt yn penderfynu bod angen i chi ad-dalu credydau treth, mae'n rhaid iddynt ddweud faint sydd angen i chi ei ad-dalu a'r camau y byddant yn eu cymryd i adennill yr arian.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Problemau gyda thaliadau

Os ydych yn credu bod swm eich credydau treth yn anghywir, gallwch ofyn i Linell Gymorth Credyd Treth HMRC i esbonio eu penderfyniad. Os ydych dal yn anfodlon, gallwch apelio.

Os ydych yn anhapus gyda gwasanaeth HMRC, er enghraifft oherwydd y bu oedi hir wrth brosesu eich hawliad neu eu bod wedi colli eich dogfennau, dylech gwyno yn y lle cyntaf i'r swyddfa credyd treth a ddeliodd â'ch hawliad. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, gallwch fynd â'r cwyn ymhellach. Gall Llinell Gymorth Credyd Treth HMRC esbonio'r hyn ddylech ei wneud os hoffech fynd â'r cwyn ymhellach, neu mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Credydau treth – rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau
- Budd-daliadau i deuluoedd a phlant
- Budd-daliadau a chredydau treth i bobl sy'n gweithio
- Problemau gyda budd-daliadau a chredydau treth
- Gordaliadau credydau treth
- Taliadau budd-daliadau a chredydau treth

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr